



**Cyfarfod Bwrdd CHC
a gynhaliwyd ddydd Iau 22 Mawrth
yn swyddfa CHC, Caerdydd**

Cynhaliwyd cyfarfod o Fwrdd CHC ddydd Iau 22 Mawrth 2018 yn Swyddfa CHC yng Nghaerdydd. Roedd cworwm yn y cyfarfod gyda 9 aelod bwrdd yn bresennol, yn ogystal ag aelodau Grŵp Uwch Reolwyr CHC.

Mae'r dilynol yn crynhoi'r eitemau a drafodwyd a'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd yn y cyfarfod.

Adroddiad Canfyddiadau Archwiliad Interim: Hysbyswyd y bwrdd nad oedd unrhyw faterion difrifol i'w hadrodd yn dilyn yr archwiliad interim. Daeth cynrychiolydd o Bevan & Buckland i drafod y broses cynllunio ar gyfer yr archwiliad ym mis Mehefin. Byddant yn canolbwyntio ar risgiau penodol i'r sefydliad, a sut i ychwanegu gwerth i'r busnes. **Canlyniad: Gwnaeth y Bwrdd gais am y risgiau yn yr Archwiliad i adlewyrchu Cofrestr Risg CHC.**

Drafft All-dro Diwedd y Flwyddyn 2017-18: Rhoddodd Steve Evans drosolwg o bwyntiau perthnasol yr adroddiad, yn cynnwys lefelau gwargedion a chostau staffio. Trafododd y bwrdd feysydd y gall fod angen edrych arnynt dros y misoedd i ddod, yn cynnwys gwell fframwaith ar gyfer costau gweithredu. **Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y drafft Gyfrifon Rheolaeth diwedd y flwyddyn ar gyfer 2017-18.**

Cymeradwyo cyllideb 2018-19: Rhoddodd Steve Evans drosolwg o'r gyllideb arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod, yn cynnwys cynyddu darpariaethau potensial a llwybrau posibl ar gyfer datblygu busnes. **Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y gyllideb.**

Cynllunio Olyniaeth: Mae nifer o faterion i'w penderfynu gan y Bwrdd, megis ethol Cadeirydd newydd, a'r 3 sedd wag ar y Bwrdd. Fel canlyniad, penodir pwyllgor enwebiadau gyda chadeirydd annibynnol a pharatoir proses etholiad. Byddwn yn siarad gydag aelodau yn yr wythnosau nesaf am y broses. **Canlyniad: Trafodir camau pellach yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mai.**

Datblygu Busnes: Cyflwynodd Adele Harries-Nicholas, Rheolydd Gwasanaethau Aelodau a Datblygu Busnes weithgareddau'r tîm Datblygu Busnes i'r Bwrdd. Roedd hyn yn cynnwys hysbysu'r Bwrdd am bedwar llinyn y strategaeth datblygu, megis cynadleddau, hyfforddiant, pecynnau aelodaeth fasnachol a chytundebau affinedd.

Diolch i Walis George: Hoffai'r Bwrdd fanteisio'n ffurfiol ar y cyfle hwn i ddiolch i Walis George, a fu'n aelod o'r Bwrdd am gyfnod maith. Dymuniadau gorau iddo ar gyfer ei ymdeoliad a byddwn yn gweld coilli ei egni a'i ymrwymiad i'r sector.

Bydd cyfarfod nesaf y bwrdd ym mis Mai gyda'r union ddyddiad i'w gadarnhau